LLAWLYFR PROSIECT DANGOSYDDION IAITH

MYNEGAI

RHAN 1 SAMPLO A MATERION AMRYWIOL 3
1. Creu ffrâm samplo 3
2. Sut i ddethol ar hap 5
3. Cyfeirnodi'r cyrff 6
4. Llwybrau i'w dilyn yn y gwaith maes 6
5. Dethol galwadau ffôn 7
6. Dethol gwefannau 7
7. Arwyddion, Hysbysebion a Thaflenni 7
8. Dosbarthu fesul iaith 8
9. Dosbarthu i sectorau 8
RHAN 2 FFURFLENNI GRID A CHYFARWYDDIADAU 11
Cyffredinol 11
1. Arwyddion 11
2. Ymweliadau 21
3. Galwadau Ffôn 27
4. Gwefannau 33
5. Taflenni 35
6. Arsyllu Mewn Caffi A Thafarn 37
7. Arsyllu Ar Deithiau Cludiant Cyhoeddus 39
8. Arsyllu Ar Achlysur Chwaraeon 41
9. Tynnu Lluniau 43
ATODIAD A 44
Dosbarthiad Enghreifftiol o'r Cyrff a astudiwyd, yn dangos y Dosbarth a'r Sector 44
ATODIAD B 47
Arolygon i'r Dyfodol 47

RHAN 1 SAMPLO A MATERION AMRYWIOL

1. Creu ffrâm samplo

Mae angen i chi greu ffrâm samplo mor gyflawn â phosib trwy gasglu gwybodaeth o gyfeirlyfrau ffôn (yn enwedig y Tudalennau Melyn), y We, ffynonellau gwybodaeth eraill megis cynghorau sir, llywodraeth ganol, llyfrgelloedd, ayb. Dylai'r rhestrau fod mor gyfredol â phosib. Argymhellir hefyd ymweld â'r lleoliad ymlaen llaw er mwyn asesu nifer y swyddfeydd cyhoeddus, cyrff iechyd, gwirfoddol, ayb. ynghyd â sefydlu nifer y siopau a busnesau sydd yn y lleoliad dan sylw.

Unwaith yr ydych yn gwybod cyfanswm y cyrff yr ydych eisiau gwneud cyswllt â nhw mewn sector arbennig, mae angen i chi benderfynu pa gyrff penodol yr ydych am gysylltu â nhw.

Dethol Sampl:

1. **Llywodraeth ganol**

Mae angen cynnwys pob corff llywodraeth ganol a geir yn y lleoliad, gan gynnwys, os oes rhai, un gangen o Swyddfa Treth y Wlad, Nawdd Cymdeithasol, Canolfan Waith, gan ddethol ar hap os oes mwy nag un gangen o'r cyrff hyn yn y lleoliad. Enghreifftiau eraill o gyrff llywodraeth ganol yw swyddfeydd Nawdd Cymdeithasol, Gwasanaeth Prawf, Cyngor Cefn Gwlad, Gyrfa Cymru , DVLA, a swyddfeydd a chanolfannau'r Bwrdd Croeso. Noder fod canolfannau croeso fel arfer yn dod o dan adain llywodraeth leol (gweler 2 isod).

2. **Llywodraeth leol**

Mae angen cynnwys pob corff llywodraeth leol a geir yn y lleoliad, gan gynnwys prif swyddfeydd y cyngor sir, bwrdeistref, tref neu ddinas, os ydynt â swyddfa/ swyddfeydd yn y lleoliad dan sylw, gan ddethol ar hap os oes mwy nag un swyddfa o'r cyrff hyn yn y lleoliad. Enghreifftiau eraill o gyrff llywodraeth leol yw'r cyngor sir, heddlu, gwasanaeth tan, cynghorau tref, canolfannau croeso (os ydynt o dan ofal y cyngor lleol), a Chymuned yn Gyntaf.

3. **Llysoedd barn**

Os oes llysoedd barn yn y lleoliad, dylid bob amser eu cynnwys. Gall hynny olygu adeiladau llysoedd ynadon, sirol a'r Goron, a swyddfeydd y llysoedd hyn (e.e. Swyddfa Clerc yr Ynadon).

4. **Siopau a busnesau**

Mae angen cynnwys yn eich sampl 60 o gwmnïau a siopau bach, gan ddethol ar hap os oes angen. Mae angen hefyd sicrhau fod gennych ddetholiad o siopau cadwyn a busnesau mawr yn eich sampl, gan gynnwys cyfleustodau megis nwy a thrydan, os oes ganddynt swyddfeydd yn y lleoliad, y Swyddfa Bost, banciau, a siopau mawr megis Tesco a Woolworths. Mae'n bosib y byddwch yn cynnwys bob un sydd yn y lleoliad, os oes llai na 10 yno. Fel arall, dewisir sampl ar hap o'r siopau/busnesau cadwyn sydd yno, gan sicrhau sampl o 10. Mae'r ffigwr hwn yn ychwanegol at y sampl o 60, gan wneud sampl cyfan o rhwng 60-70 o siopau a busnesau bach a mawr.

Os oes stadau diwydiannol/ parciau busnes yn y lleoliad *a bod y cyhoedd yn cael mynediad iddynt*, yna cynhwyswch y rhain hefyd yn eich sampl o fusnesau bach neu fawr, gan ddibynnu ar faint y fenter dan sylw. Os nad oes mynediad i'r cyhoedd, yna anwybyddwch y rhain wrth greu eich ffrâm samplo.

Sampl:	Siopau/busnesau mawr	10
	Siopau/busnesau bach	60

5. **Sefydliadau gwirfoddol**

Mae cyrff gwirfoddol yn cynnwys, er enghraifft, pleidiau gwleidyddol, Oxfam, Tŷ Hafan, y Groes Goch, a'r NFU. Noder y bydd siopau Oxfam, Tenovus, ayb. a geir ar y stryd fawr yn cael eu cynnwys o dan "cyrff gwirfoddol" yn hytrach nag o dan "siopau a busnesau".

6. **Hamdden**

Mae hamdden yn cynnwys theatrau/sinemâu a chwaraeon. Cynhwyswch glybiau chwaraeon megis clybiau peldroed, athletau, criced, ayb. a phob theatr a sinema sydd yn y lleoliad.

Fodd bynnag, noder y dylid ystyried rhai elfennau o gyrff hamdden o dan benawdau gwahanol. Er enghraifft, os oes clwb cymdeithasol yn gysylltiedig â chlwb chwaraeon (yn cynnal nosweithiau cymdeithasol, gwerthu alcohol, ayb.) bydd hwn yn cael ei gyfrif o dan bennawd busnesau bach (neu fusnes mawr, os oes mwy nag un gangen).

- Clwb Peldroed Dinas Bangor - chwaraeon
- Clwb Cymdeithasol Clwb Peldroed Dinas Bangor – busnes bach

Achos arall i'w ystyried yw canolfannau hamdden, a all fod yn fusnesau bach neu fawr, neu o dan ofal llywodraeth leol: e.e.:

- Canolfan Hamdden JJB Sports – busnes cadwyn
- Canolfan Hamdden Arfon – llywodraeth leol

7. **Sefydliadau Iechyd**

Mae angen cynnwys bob amser y corff iechyd sydd bwysicaf i'r lleoliad - e.e. fel arfer ysbyty mewn lleoliad mawr neu feddygfa mewn lleoliad bach. Yna dylid dethol sampl ar hap o gyrff iechyd eraill - e.e. Byrddau Iechyd lleol, Ymddiriedolaethau Iechyd GIG (h.y. swyddfeydd, gan mai i'r rhain hefyd mae'r ysbytai'n perthyn), Ymddiriedolaeth Iechyd GIG Gwasanaethau Ambiwlans, deintyddion, a chanolfannau iechyd. Sylwer fod cartrefi nyrsio preifat yn cael eu cyfrif fel busnes, ond mae unrhyw gartref nyrsio sydd o dan ofal Bwrdd Iechyd lleol neu'r Ymddiriedolaeth Iechyd yn dod o dan y pennawd 'Iechyd'.

8. **Cludiant Cyhoeddus**

Mae angen cynnwys bob amser unrhyw orsaf drenau, swyddfeydd bysiau, porthladd neu faes awyr sydd yn y lleoliad.

NODER: Mae angen dethol cyfanswm o 10 o gyrff o blith adrannau 5, 6, 7 ac 8 uchod, os oes digon ar gael yn y lleoliad. Bydd y nifer o bob adran yn y sampl terfynol yn dibynnu ar nifer y gwahanol gyrff fesul adran yn y lleoliad dan sylw, ond mae angen anelu at gael sampl cynrychioladol bob amser.

2. Sut i ddethol ar hap

Cofiwch eich bod yn cynnwys *pob* corff llywodraeth ganol, lleol a llysoedd sydd yn y lleoliad. Ond o safbwynt y sectorau eraill, bydd angen i chi ddethol y cyrff ar hap:

Yn gyntaf, cesglwch at ei gilydd bob rhestr bosib o enwau'r cyrff perthnasol sydd yn y lleoliad, fel yr amlinellir o dan bennawd 1 uchod. Yna dewiswch eich sampl ar hap o'r rhestr gyfansawdd, gan ddibynnu ar y nifer o gyrff dan sylw.

Enghraifft 1: os oes 23 corff gwirfoddol a chithau angen sampl o 8 ohonynt, yna byddwch yn dethol 8 enw ar hap o'r rhestr., gan ddefnyddio techneg dewis yr enwau 'allan o het'.

Enghraifft 2: os oes 200 o siopau/busnesau bach mewn lleoliad, a chithau angen ymweld â 50 ohonynt, yna byddwch yn dethol bob 4ydd siop/busnes ar hyd eich dewis lwybrau.

3. Cyfeirnodi'r cyrff

Cyn cychwyn, rydych angen: map manwl o'r strydoedd, wedi ei rannu yn ôl yr ardaloedd yr ydych am ddefnyddio. Ar ôl llunio'r rhestrau cyflawn o'r cyrff yr ydych am ymweld â nhw, yna mae angen labelu bob un gyda'r cyfeirnod grid cywir (e.e. SN 1872650378). Bydd hyn yn sicrhau fod yr union leoliad yn cael ei gofnodi, fel bod modd ailymweld â'r un lleoliad yn y dyfodol mewn arolygon pellach. Os oes mwy nag un corff yn yr un lleoliad (e.e. os oes swyddfa uwchben siop), yna dylid ychwanegu 1 at ddigid olaf y corff sydd ar y llawr cyntaf.

Noder na fyddwch yn gallu creu'r cyfeirnod cywir ar gyfer siopau a busnesau bach (nac o bosib y rhai mawr) hyd nes y byddwch wedi gwneud eich gwaith maes, gan nad ydych o anghenraid yn gwybod cyn i chi fynd allan yn union pa siopau/busnesau y byddwch yn ymweld â nhw. Mae'n bwysig eich bod yn cofnodi'n gywir a llawn enw a chyfeiriad y siop/busnes ar eich ffurflenni, gan y bydd angen i chi gyfeirnodi'r corff yn brydlon ar ddiwedd eich gwaith maes.

4. Llwybrau i'w dilyn yn y gwaith maes

Siopau a busnesau

1. Byddwch bob amser yn defnyddio'r brif stryd siopa, ac o leiaf un canolfan siopa (os oes un yn y lleoliad) i ymweld â nhw ac i nodi iaith arwyddion. Yna byddwch yn dethol llwybrau/ strydoedd eraill yn ôl yr angen i gyrraedd y nifer angenrheidiol o siopau a busnesau yn eich sampl o 60.

2. Cychwynnwch ar un pen o'r stryd, gan ddethol bob yn 2il, 5ed, 10fed, ayb. siop/busnes i arsyllu arnynt neu i ymweld â nhw. Cadwch at un ochr y stryd i ddechrau.

3. Ar ôl i chi gyrraedd pen y stryd, ac os nad ydych wedi cael digon i lenwi eich sampl, yna dowch yn ôl ar hyd ochr arall y stryd, gan ddethol bob yn 2il, 5ed, 10fed siop/busnes, yn ôl yr angen.

5. Dethol galwadau ffôn

I wneud eich detholiad, byddwch fel rheol yn defnyddio'r Tudalennau Melyn a'r cyfarwyddiadur teliffon priodol sy'n cynnwys siopau a busnesau gwasanaethau yn yr ardal dan sylw.

1. Ffoniwch *bob* corff llywodraeth ganol a lleol ac unrhyw lys barn sydd yn eich lleoliad *ddwy waith*, ar wahanol amseroedd (e.e. bore/prynhawn).

2. Ffoniwch sampl o'r siopau a busnesau unwaith. Byddwch yn ffonio 60 o'r rhain. Detholwch eich sampl ar hap o'ch ffrâm samplo. Ni fyddant o anghenraid yr un siopau a busnesau yr ydych wedi ymweld â nhw.

3. Ffoniwch 20 o gyrff o blith y rhestr o gyrff amrywiol, gan gynnwys cyrff gwirfoddol, hamdden, iechyd a chludiant. Detholwch eich sampl ar hap o'ch ffrâm samplo. Ni fyddant o anghenraid yr un cyrff yr ydych wedi ymweld â nhw.

4. Nodwch y byddwch yn cael opsiwn mewn rhai achosion i ddewis llinell gymorth Gymraeg - os yw ar gael, dylech ddethol yr opsiwn hwn. Hefyd mae'n bosib mai dim ond rhifau canolog a geir ar gyfer rhai cyrff - e.e. banciau sy'n cynnig rhif 0845. Fodd bynnag, os oes opsiwn i ddethol rhif ffôn lleol, dylech wneud hynny ond os nad yw'n opsiwn, yna dylech ddefnyddio'r rhif 0845.

6. Dethol gwefannau

1. Gwiriwch wefannau bob un o'r cyrff a oedd yn eich sampl galwadau ffôn. (Mae'n bosib na fydd gan nifer o'r cyrff llai wefan.)

2. Cofiwch y bydd angen gwirio *pob* gwefan llywodraeth ganol a lleol, ac unrhyw lys barn.

3. Yn achos siopau a busnesau, mae'n debygol mai dim ond gan siopau cadwyn a busnesau mawr y bydd gwefannau.

4. Yna edrychwch ar wefannau'r cyrff amrywiol eraill yr ydych wedi eu ffonio.

7. Arwyddion, Hysbysebion a Thaflenni

1. Pan ydych yn ymweld â chyrff, bydd angen i chi nodi iaith hyd at 3 o arwyddion allanol neu arwyddion mewnol, e.e. yn y ffenestr, yn hongian o'r nenfwd neu ar wal..

2. Yn ogystal bydd angen i chi nodi hysbysebion a welwch ar y stryd sy'n eich cyfeirio at y cyrff yr ydych yn ymweld â nhw – e.e. byrddau biliau, hysbysebion siopau.

3. Mae angen i chi hefyd ddethol y 3 taflen gyntaf a welwch wrth ymweld â'r cyrff amrywiol yn eich sampl.

4. Byddwch angen tynnu lluniau o arwyddion a hysbysebion - gweler Rhan 2, Adran 9 isod.

8. Dosbarthu fesul iaith

8.1 Enwau ar Arwyddion

Gallwn ddod o hyd i'r canlynol ar arwydd:

- dosbarthiad/enw generig: Cynllunydd Gwallt, Siop Fara, Cigydd
- enwau masnachol neu enwau pobl: Debenhams, Tesco, R. Jones & Sons, E Jones a'i Feibion a'i Ferch

Os oes enw generig ar yr arwydd, byddwch yn canolbwyntio ar iaith yr enw generig ac yn anwybyddu'r enw masnachol neu enwau'r unigolion.

Os nad oes enw generig, edrychwn ar enw'r unigolion neu enwau eraill, a nodi iaith y rhain. Os mai arwyddlun neu debyg sydd arno, ac nad yw'n bosib nodi iaith, nodwch hynny . Ceisiwch osgoi arwyddion o'r math hwn pan fo'n bosib – edrychwch ar y siop/busnes drws nesaf yn lle hynny.

8.2 Opsiynau ieithyddol

Byddwch yn nodi'r ieithoedd fel a ganlyn:

Cymraeg	1
Saesneg	2
Dwyieithog	3
Dim iaith	9

9. Dosbarthu i sectorau

Wrth ystyried sut i ddosbarthu'r gwahanol gyrff yr ydych yn creu math o deipoleg. Yr hyn sydd yn bwysig yw sicrhau fod y deipoleg a adeiledir yn seiliedig ar egwyddorion sydd yn berthnasol i nod y prosiect. Yn hyn o beth rhaid ystyried y ffactorau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd iaith sef gallu ieithyddol, bodlonrwydd i ddefnyddio'r iaith, a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith berthnasol.

Wrth ystyried y cyrff, rydych yn canolbwyntio ar sut mae gallu ieithyddol a bodlonrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn dylanwadu ar y cyfle i'w defnyddio.

Gan fod gorfodaeth statudol yn bodoli ar draws y sector gyhoeddus, tueddir i gyflogi personél sydd yn medru'r Gymraeg gan sicrhau mai elfen ganolog o'u gwaith yw defnyddio'r iaith. Nid oes dim byd tebyg ar gyfer y sector breifat na'r sector wirfoddol, ac yma dibynnir ar awydd y cyrff unigol i blesio'r cwsmer. Mae hyn yn gofyn am ymwybyddiaeth neilltuol.

Gellir dadlau fod corff sydd yn gangen i fusnes cadwyn sydd â'i bencadlys tu allan i Gymru mewn sefyllfa pur wahanol i gorff bach lleol. Ar yr un llaw, mae'n bosib bod yr ymwybyddiaeth o anghenion y Gymraeg yn wahanol. Ar y llaw arall, mae lefel yr adnoddau sydd ar gael yn wahanol. Mae busnes teuluol yn aml yn ddibynnol ar lafur teulu ac yn methu ymestyn i gyflogi neb tu hwnt i hynny. Felly mae gallu ieithyddol y staff i raddau ynghlwm â gallu oddi mewn i'r teulu. Dyma'r math o ffactorau sydd yn gyfrifol am strwythuro'r deipoleg a ddefnyddir.

Yn dilyn y gwaith a wnaethpwyd yn yr astudiaeth beilot, rydym yn addasu rhyw gymaint ar y dosbarthiad a ddefnyddir gan Ofercat i gydweddu'n well ag anghenion gwaith o'r fath yng Nghymru. Dylid defnyddio'r dosbarthiad canlynol:

1. Llywodraeth ganol
2. Llywodraeth leol
3. Llysoedd barn
4. Sefydliadau cymdeithasol/economaidd
    - siopau/busnesau cadwyn
    - siopau a busnesau bach
5. Sefydliadau gwirfoddol
6. Hamdden
    - theatrau a sinemâu
    - chwaraeon
7. Sefydliadau iechyd
8. Cludiant cyhoeddus

Mae'r tabl yn Atodiad A yn cyflwyno rhestr enghreifftiol, gan ddefnyddio rhai o'r cyrff a gafwyd yn arolygon 2005-06, gan ddangos eu dosbarthiad i wahanol sectorau.[1]

Dyma ganllaw ar sut i ddosbarthu rhai achosion dyrys:

- Swyddfa'r Post: ystyrir bod pob swyddfa bost leol yn perthyn i'r corff hwn. Felly hefyd y "Royal Mail". Ei ddosbarth yw "Siop/busnes cadwyn"
- Meddygon: fe'u priodolir i'r Byrddau Iechyd Lleol. Eu dosbarth yw "Iechyd'
- Deintyddion: cyrff annibynnol, ond eto eu dosbarth yw "Iechyd'
- Cyngor ar Bopeth: un corff, ai'i ddosbarth yw "Gwirfoddol'
- Cymuned yn gyntaf: fe'i briodol i'r Cyngor Sir lleol (dosbarth "Llywodraeth Leol')

[1] Mae'r dosbarthiad yn priodoli corff i ddosbarth a sector. Gweler y tabl yn Atodiad A am enghraifft o'r dosbarthiadau hyn. Gall corff gynnwys mwy nag un gangen e.e. cadwyn o sefydliadau megis banc neu archfarchnad, sy'n bodoli mewn gwahanol fannau. Mae man yn cyfeirio at y sefydliad unigol, a cheir enw a chyfeiriad i bob un.

- Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin, Gogledd ayb: cwmnïoedd annibynnol, h.y. nid un corff ond nifer OND i'w dosbarthu fel Llywodraeth Ganol
- Perthyn i ddosbarth siop/busnes mawr y mae pob siop/busnes sydd ag mwy nag UN man, h.y. cyfeiriad

RHAN 2 FFURFLENNI GRID A CHYFARWYDDIADAU

Cyffredinol

Er mwyn priodoli'r cyrff i'r dosbarthiadau a sectorau priodol, mae'n oll bwysig bod cymaint o wybodaeth â phosibl yn cael ei chofnodi ar y ffurflenni i gynorthwyo yn y gwaith. Yn bennaf, dylid cofnodi enwau mor ddiamwys â phosibl, e.e. "Clinic Meddygon Dr A. Jones a Dr B. Evans, 123 Stryd Fawr, Tre-fach", yn hytrach na "Clinic Tre-fach"

1. Arwyddion

1. 1 Arwyddion Llywodraeth Ganol, Lleol A Llysoedd

Cyfarwyddiadau cwblhau'r grid arwyddion i gyrff llywodraeth ganol, lleol a llysoedd

Prif Arwydd Adnabod

Dyma'r arwyddion sy'n dynodi'r corff; dyma'r arwydd enw. Fel arfer bydd ar flaen yr adeilad.
Dim ond **un** o'r arwyddion hyn fyddwn chi'n ei nodi – os oes mwy nag un, byddwch yn nodi'r mwyaf.

Arwyddion gwybodaeth

Dyma'r arwyddion a ddefnyddir i gyflwyno gwybodaeth – oriau gweithio, gwasanaethau, ayb. Fel arfer mae'r rhain yng nghyntedd yr adeilad. Yn yr achos hwn, byddwch yn nodi'r **ddau** arwydd cyntaf yr ydych yn eu gweld wrth gerdded o gyfeiriad y drws ffrynt (dynodir yn arwyddion 2 a 3 ar y ffurflen).

FFURFLEN GRID ARWYDDION LLYWODRAETH GANOL, LLEOL A LLYSOEDD

Enw a chyfeiriad y corff + cyfeirnod grid	Dyddiad	Amser	Iaith arwydd 1af			Iaith 2il arwydd			Iaith 3ydd arwydd			Allwedd
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1 Cymraeg 2 Saesneg 3 Dwyieithog
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	

1.2 Arwyddion Cludiant Cyhoeddus

Cyfarwyddiadau ar gyfer y grid i gludiant cyhoeddus

Dull gweithredu

Byddwch yn nodi'r iaith a glywir ar yr uwch seinydd wrth ymweld â'r orsaf. Os nad oes neges, byddwch yn disgwyl am bum munud. Os nad oes neges o fewn pum munud, byddwch yn gadael y blwch yn wag.

Prif arwydd adnabod

Dyma'r arwydd sy'n rhoi enw'r orsaf neu arosfan. Cofnodir **un** arwydd yn unig; os oes mwy nag un, cofnodir yr arwydd mwyaf.

Is-arwyddion gwybodaeth

O dan y pennawd hwn, byddwch yn edrych ar y **ddau** arwydd gwybodaeth cyntaf a welwn.

Mewn gorsafoedd, ni fyddwch yn edrych ar unrhyw arwyddion sydd mewn siopau a all fod ar safle'r orsaf. Yn hytrach, rydych eisiau arwyddion sy'n rhoi gwybodaeth am amserlenni, gwasanaethau, ayb.

Iaith yr uwch seinydd

Os defnyddir mwy nag un iaith, nodwn yr iaith a ddefnyddir gyntaf fel y brif iaith.

FFURFLEN GRID ARWYDDION CLUDIANT CYHOEDDUS

Enw a chyfeiriad y corff + cyfeirnod grid	dyddiad	amser	Iaith Arwydd 1af			Iaith 2il arwydd			Iaith 3ydd arwydd			Iaith uwch seinydd			Allwedd
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1 Cymraeg 2 Saesneg 3 Dwyieithog
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	

1.3 Arwyddion Theatrau a Sinemâu

Cyfarwyddiadau ar gyfer y grid sinemâu a theatrau

Prif arwydd adnabod
Dim ond **un** o'r arwyddion hyn fyddwn chi'n ei nodi ar gyfer bob sinema neu theatr yr ydych yn ymweld â nhw – os oes mwy nag un, byddwch yn nodi'r mwyaf.

Arwyddion gwybodaeth

Dyma'r arwydd a ddefnyddir i gyflwyno gwybodaeth – oriau gweithio, gwasanaethau, ayb. Yn yr achos hwn, byddwch yn nodi'r 2 arwydd cyntaf yr ydych yn ei weld.

FFURFLEN GRID ARWYDDION
Sector: Theatrau a Sinemâu

Enw a chyfeiriad y corff + cyfeirnod grid	dyddiad	amser	Iaith arwydd 1af			Iaith 2il arwydd			Iaith 3ydd arwydd			Allwedd
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1 Cymraeg 2 Saesneg 3 Dwyieithog
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	

1.4 Ffurflen Grid Arwyddion Priffyrdd

Cyfarwyddiadau ar gyfer y grid arwyddion priffyrdd

Edrychir yma ar y brif stryd siopa, a phum stryd/ ffordd gyfagos. Ymwelwch â maes parcio cyhoeddus os nad oes peiriannau parcio ar y stryd/ ffordd.

Bydd angen i chi dynnu lluniau o'r arwyddion hyn yn ogystal.

Nodir iaith **un** o'r arwyddion ym mhob achos, sef y cyntaf a welir yn y lleoliad:

Enw'r stryd + cyfeirnod grid	dyddiad	amser	Iaith Arwydd stryd C/			Iaith arwydd mynediad/ dim aros ⃠			Iaith arwydd cyfeirio ➲			Iaith peiriant parcio Ⓟ			Iaith arwyddion traffig △			Allwedd
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1 Cymraeg 2 Saesneg 3 Dwyieithog
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	1	2	3	

1.5 Arwyddion Siopau A Busnesau

Byddwch yn edrych ar siopau a busnesau mewn strydoedd a chanolfannau siopa, a byddwch bob amser yn cynnwys y Stryd Fawr.

Siopau a busnesau

Prif arwydd adnabod

Dyma arwydd adnabod y siop neu fusnes, gyda'r enw arno. Nodwch **un.**

Is-Arwyddion – ffenestr y siop

Yn achos siopau, byddwch yn edrych ar yr iaith yn ffenestr y siop: eitemau, prisiau, rhybuddion, ayb. os oes rhai. Cynhwyswch unrhyw hysbysebion y siop ei hun. Anwybyddwch bosteri a hysbysebion sy'n sôn am weithgareddau cymdeithasol neu ddigwyddiadau eraill.

Yn achos busnesau, edrychwn ar arwyddion oriau agor, ayb.

Nodwch **ddau** o'r is-arwyddion hyn.

FFURFLEN GRID ARWYDDION SIOPAU A BUSNESAU

Enw a chyfeiriad y siop/ busnes	dyddiad	amser	Iaith arwydd 1af			Iaith 2il arwydd			Iaith 3ydd arwydd			Allwedd
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1 Cymraeg 2 Saesneg 3 Dwyieithog
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	

1.6 Ffurflen Grid Hysbysebion

Cyfarwyddiadau

Yma nodwch yr hysbysebion a welwch ar y stryd ac yn y gymuned – ar waliau, byrddau hysbysebu, ayb.

Enw'r corff/ busnes a lleoliad yr hysbyseb	dyddiad	amser	Iaith yr hysbyseb			Iaith hysbysebu
			1	2	3	1 Cymraeg yn unig/ bennaf 2 Saesneg yn unig/ bennaf 3 Dwyieithog
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	
			1	2	3	

2. Ymweliadau

2.1 Ymweliadau â Llywodraeth Ganol, Llywodraeth Leol A'r Llysoedd

Byddwch yn ymweld â phob corff llywodraeth ganol, lleol a llys barn yn y lleoliad.

Byddwch yn defnyddio'r dull arsyllu cudd wrth ymweld â phob corff. Ni fyddwch yn datgelu i neb mai ymchwilydd ydych, ond yn hytrach byddwch yn ymddwyn fel aelod o'r cyhoedd.

Iaith cyfarch y cyrff (Iaith ymateb 1af)

Yr amcan yw i'r person sy'n gwasanaethu'r cyhoedd ddweud digon o eiriau i'n galluogi i ddarganfod ym mha iaith y maent wedi'n cyfarch. Er mwyn ceisio cyrraedd y nod, *dylem aros yn ddistaw am ychydig*. Os yw hynny'n creu anesmwythyd, byddwch chi'n siarad gyntaf, yn Gymraeg bob amser.

Iaith addasiad y cyrff (Iaith 2il ymateb)

Bob tro y mae'n bosib, unwaith yr ydych wedi cael y dangosydd adnabod iaith, dylech ofyn cwestiwn a ddylai fod yn Gymraeg bob amser. Dylai fod yn gwestiwn y gallai unrhyw un sy'n ymweld â'r corff ei ofyn, sydd angen ateb tu draw i Ie neu Na; nid yw atebion amwys yn ddilys.

Lefel Cwrteisi
Byddwch hefyd yn asesu lefel cwrteisi'r ymateb a gewch gan y corff. Bydd gwasanaeth cwrtais iawn yn golygu rhywun sydd yn mynd o'u ffordd i'ch helpu ac yn foesgar; bydd gwasanaeth gweddol gwrtais yn golygu eich bod yn derbyn y gwasanaeth y gofynnwch amdano er nad yw'r person yn mynd o'u ffordd i'ch helpu; ac mae anghwrtais yn cynnwys gwasanaeth sydd ar lefel is na hyn, yn arbennig ymateb sarhaus, dirmygus, ac agwedd ddi-hidio.

FFURFLEN GRID YMWELIADAU Â LLYWODRAETH GANOL, LLYWODRAETH LEOL A'R LLYSOEDD

Enw a chyfeiriad y siop/ busnes + cyfeirnod grid	dyddiad	amser	Iaith ymateb 1af			Iaith 2il ymateb			Lefel cwrteisi			Allwedd
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1 Cymraeg 2 Saesneg 3 Dwyieithog Lefel cwrteisi: 1 Cwrtais iawn 2 Gweddol gwrtais 3 Anghwrtais
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	

2.2 Ymweliadau Siopau A Busnesau

Byddwch yn ymweld â 60 o siopau a busnesau yn y lleoliad, a 10 o siopau/busnesau mawr (os oes digon yn y lleoliad).

Byddwch yn defnyddio'r dull arsyllu cudd wrth ymweld â phob corff. Ni fyddwch yn datgelu i neb mai ymchwilydd ydych, ond yn hytrach byddwch yn ymddwyn fel aelod o'r cyhoedd.

Iaith cyfarchiad
Yr amcan yw i'r person sy'n gwasanaethu'r cyhoedd ddweud digon o eiriau i'n galluogi i ddarganfod ym mha iaith y maent wedi'n cyfarch. Er mwyn ceisio cyrraedd y nod, *dylem aros yn ddistaw am ychydig*. Os yw hynny'n creu anesmwythyd, byddwch chi'n siarad gyntaf, yn Gymraeg bob amser.

Iaith yr ymateb

Bob tro y mae'n bosib, unwaith yr ydych wedi cael y dangosydd adnabod iaith, dylech ofyn cwestiwn a ddylai fod yn Gymraeg bob amser. Dylai fod yn gwestiwn y gallai unrhyw un sy'n ymweld â'r busnes ei ofyn, sydd angen ateb tu draw i Ie neu Na; nid yw atebion amwys yn ddilys.

Lefel Cwrteisi
Byddwch hefyd yn asesu lefel cwrteisi'r ymateb a gewch gan y siop/busnes. Bydd gwasanaeth cwrtais iawn yn golygu rhywun sydd yn mynd o'u ffordd i'ch helpu ac yn foesgar; bydd gwasanaeth gweddol gwrtais yn golygu eich bod yn derbyn y gwasanaeth y gofynnwch amdano er nad yw'r person yn mynd o'u ffordd i'ch helpu; ac mae anghwrtais yn cynnwys gwasanaeth sydd ar lefel is na hyn, yn arbennig ymateb sarhaus, dirmygus, ac agwedd ddi-hidio.

FFURFLEN GRID YMWELIADAU Â SIOPAU A BUSNESAU

Enw a chyfeiriad y siop/ busnes + cyfeirnod	dyddiad	amser	Iaith ymateb 1af			Iaith 2il ymateb			Lefel cwrteisi			Allwedd
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	1 Cymraeg 2 Saesneg 3 Dwyieithog Lefel cwrteisi: 1 Cwrtais iawn 2 Gweddol gwrtais 3 Anghwrtais
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	
			1	2	3	1	2	3	1	2	3	

2.3 Ymweliadau â Sefydliadau Amrywiol

Byddwch yn ymweld ag 20 o gyrff amrywiol yn y lleoliad, gan ddethol sampl o blith y sectorau a nodir.

Byddwch yn defnyddio'r dull arsyllu cudd wrth ymweld â phob corff. Ni fyddwch yn datgelu i neb mai ymchwilydd ydych, ond yn hytrach byddwch yn ymddwyn fel aelod o'r cyhoedd.

Defnyddiwch y ffurflen ganlynol i gofnodi ymweliadau â chyrff yn y sectorau canlynol:

- Sefydliadau gwirfoddol
- Iechyd
- Cludiant
- Theatrau a Sinemâu

Nodwch yn glir pa sector mae'r cyrff yn perthyn iddynt, neu defnyddiwch ffurflen ar wahân i bob un, wedi eu labelu'n briodol.

Iaith cyfarch y cyrff (iaith ymateb 1af)

